

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026



Dyddiad	Dydd ac Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Medi 10^{fed} a'r 12^{fed}	Dydd Iau 10 ^{fed} 6yh – 9yh Dydd Sadwrn 12 ^{fed} 9yb – 6yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Peditrig – Llawn (12 awr) Nod hyfforddiant peditrig llawn yw darparu cymhwyster cymorth cyntaf peditrig i staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc gan ofalu amdanynt. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd lle ceir un swyddog cymorth cyntaf yn bresennol. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys rheoli anafiadau anymwybodol, dadebru plant a babanod, tagu, sioc, clwyfau a gwaedu, mân losgiadau, anhwylderau anadlu, trawiadau, anafiadau i'r pen, toriadau, cyflyrau plentyndod, adweithiau alergaidd, gwres ac oerfel. **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	St Johns Ambulance Cymru Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo Math o ffotograffig ID, trwydded yrru/ passport/ cerdyn CSG	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Iwan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Medi 15^{fed} a'r 17^{eg}	Dydd Mawrth 15 ^{fed} 6yh – 9yh Dydd Iau 17 ^{eg} 6yh – 9yh	Diogelu Grŵp B Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant fynychu'r hyfforddiant hwn fel rhywbeth gorfodol. Safonau Diogelu Grŵp B Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Iwan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Medi 16^{eg}	Dydd Mercher 16 ^{eg} 6yh – 8yh	Deall Proffiliau Un Dudalen (PUD) a Ffurflenni Gwybodaeth Trosglwyddo: Cefnogi Pontio Effeithiol Bydd yr hyfforddiant hwn yn archwilio diben a phwysigrwydd Proffiliau Un Dudalen (PUD) fel offeryn allweddol ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am ddysgwyr. Bydd cyfranogwyr yn	Tîm ADY Blynnyddoedd Cynnar	<i>Ar-lein - Teams</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026

		adolygu'r hyn y dylai PUD effeithiol ei gynnwys a sut y gellir ei ddefnyddio i gefnogi dealltwriaeth, cynllunio a chanlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Bydd y sesiwn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cwblhau a rhannu Ffurflenni Gwybodaeth Trosglwyddo gyda'r ysgolion sy'n derbyn y dysgwyr. Bydd cyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae rhannu gwybodaeth yn gywir ac mewn modd amserol yn cefnogi pontio llyfn, yn sicrhau parhad y gefnogaeth, ac yn helpu ysgolion i baratoi'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr o'r cychwyn cyntaf. Drwy drafodaeth ac arweiniad ymarferol, bydd mynychwyr yn cryfhau eu dealltwriaeth o arferion da mewn cynllunio pontio a rhannu gwybodaeth. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>			
Medi 19^{eg}	Dydd Sadwrn 19 ^{eg} 9:30yb – 4:30yp	Blynyddoedd Cynnar - Dysgu yn yr Awyr Agored Mae 'Sylfeini'r Blynyddoedd Cynnar yn yr awyr agored' ar gyfer lleoliad cyfan blynyddoedd cynnar i hyfforddi fel tîm gyda'i gilydd, gan ddatblygu hyder a sgiliau staff, yn ogystal â'r gofodau a'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer dysgu a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r cwrs hyfforddi ymarferol hwn yn cynnwys y tîm staff cyfan, adeiladu ar eu syniadau, asesu eu harferion presennol, a mynd i'r afael â rhwystrau cyffredin i ddarparu dysgu a chwarae awyr agored effeithiol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys 'Mathemateg Awyr Agored y Blynyddoedd Cynnar' sydd ar gyfer ymarferwyr sy'n ceisio datblygu eu sgiliau a'u hardaloedd awyr agored i gefnogi dysgu mathemateg blynyddoedd cynnar. Mae'r hyfforddiant hwn hefyd yn cwmpasu defnyddio'r amgylchedd awyr agored ysgogol cyfoethog. Mae 'Llythrennedd Awyr Agored y Blynyddoedd Cynnar' yn edrych ar greu gofodau ac ymarfer proffesiynol sy'n annog sgwrsio, chwarae cydweithredol, a dychymyg mewn plant ifanc. Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer lleoliad blynyddoedd cynnar sy'n edrych i archwilio'r cyfleoedd y mae mannau awyr agored yn eu cynnig ar gyfer llythrennedd cynnar a dysgu mathemateg. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Learning Through Landscapes Cwrs ymarferol diwrnod llawn yw hwn gydag elfennau o waith grŵp yn yr ystafell ddosbarth, ond gyda chyfran sylweddol yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynnwys cyfnodau o weithgarwch a bod yn yr awyr agored ym mhob tywydd am gyfnodau estynedig. Gwisgo ar gyfer y tywydd a'r amodau.	<i>Parc Dewi Sant, Adeilad 2, Heol Job's Well, Caerfyrddin SA31 3HG</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026

Medi 22^{ain}	Dydd Mawrth 22 ^{ain} 6yh – 8:30yh	Gwrth-hiliaeth Cefnogi Ymarferwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae ar eu taith Gwrth-Hiliaeth. Deall beth yw hiliaeth a gwrth-hiliaeth a sut y gellir ei ymgorffori yn eich ymarfer eich hun. **Rhaid darllen a thrafod adnoddau cyn mynychu hyfforddiant ar-lein** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	DARPL	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Medi 26^{ain} a Hydref 3^{ydd}	Dydd Sadwrn 26 ^{ain} 9:30yb – 4:30yp Dydd Sadwrn 3 ^{ydd} 9:30yb – 4:30yp	Diogelu Grŵp C Staff sydd â rôl flaenllaw o fewn penderfyniadau diogelu gan gynnwys person diogelu dynodedig y sefydliad. Safonau Diogelu Grŵp C Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Festri Tabor, Cross Hands SA14 6SU</i>	Dim cost £0
Hydref 6^{ed}	Dydd Mawrth 6 ^{ed} 6:30yh – 8:30yh	Cyflwyniad i Chwarae Mae Tîm Chwarae Cyngor Sir Gâr yn darparu Gweithdy 2 awr heb ei achredu 'Cyflwyniad i Chwarae'. Yn ystod y gweithdy hwn byddwch yn dysgu pwysigrwydd chwarae drwy ymdrin â rhai cysyniadau adnabyddus sy'n hanfodol i gefnogi chwarae i blant gan gynnwys y theori chwarae, egwyddorion gwaith chwarae a hawliau plant i chwarae. Byddwn yn trafod rôl yr oedolyn wrth greu cyfleoedd chwarae a ffyrdd y gallwch eiriol dros chwarae yn eich lleoliad a gyda theuluoedd. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	CSG Tîm Chwarae	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Hydref 15^{fed} a'r 17^{eg}	Dydd Iau 15 ^{fed} 6yh – 9yh Dydd Sadwrn 17 ^{eg} 9yb – 6yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig – Llawn (12 awr) Nod hyfforddiant pediatrig llawn yw darparu cymhwyster cymorth cyntaf pediatrig i staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc gan ofalu amdanynt. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd lle ceir un swyddog cymorth cyntaf yn bresennol. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys rheoli anafiadau anymwybodol, dadebru plant a babanod, tagu, sioc, clwyfau a gwaedu, mân losgiadau, anhwylderau anadlu, trawiadau, anafiadau i'r pen, toriadau,	St Johns Ambulance Cymru Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo Math o ffotograffig ID, trwydded yrru/ passport/ cerdyn CSG	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026

		cyflyrau plentyndod, adweithiau alergaidd, gwres ac oerfel. **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>			
Tachwedd 3ydd a'r 10fed	Dydd Mawrth 3ydd 6yh – 9yh Dydd Mawrth 10fed 6yh – 9yh	Diogelu Grŵp B Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant fynychu'r hyfforddiant hwn fel rhywbeth gorfodol. Safonau Diogelu Grŵp B Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Tachwedd 7fed	Dydd Sadwrn 7fed 9:30yb – 4:30yp	Sgemâu a Nodweddion Dysgu Effeithiol Mae'r cwrs hwn yn anelu at ddyfnhau dealltwriaeth y mynychwyr o gymhlethdodau archwiliadau sgematig a sut y mae'r rhain yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ymrwymiad y plant a'u hymwneud parhaus â'u gweithgareddau hunan-ddewisol. Mae'r sesiwn yn archwilio sgemâu a'u cysylltiadau â nodweddion dysgu effeithiol, yn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau craidd sgemâu, ac yn edrych ar sut mae plant yn defnyddio chwarae archwiliadol fel sail ar gyfer ymestyn eu diddordebau sgematig. Mae hefyd yn ystyried ffyrdd o gefnogi plant i gynrychioli eu hymchwiliadau yn symbolaidd, meithrin eu chwilfrydedd ynghylch achos ac effaith, ac i gyfoethogi eu hiaith a'u meddwl drwy brofiadau sy'n seiliedig ar sgemâu. Erbyn diwedd y cwrs, bydd mynychwyr yn wybodus ac yn hyderus wrth gefnogi datblygiad plant, yn enwedig o ran sut maent yn cynrychioli eu gweithredoedd, eu syniadau symbolaidd, eu meddyliau a'u darganfyddiadau drwy archwiliad amlddisgyblaethol o'r pethau sy'n eu swyno. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Dr. Stella Louis	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Tachwedd 11eg	Dydd Mercher 11ain 6yh – 8yh	Hyfforddiant Llythrennedd Corfforol Mae'r Tîm Pobl Ifanc Egnïol yn ymdrechu i helpu pob plentyn i ddatblygu llythrennedd corfforol trwy feithrin eu cymhelliant, eu hyder a'u	Actif	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan,</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026

		dealltwriaeth o sgiliau corfforol mewn amgylchedd cefnogol o oedran ifanc, gan hyrwyddo gweithgarwch gydol oes a lles. Bydd yr hyfforddiant yn eich helpu i ddatblygu sgiliau corfforol plant ifanc, trefnu gweithgareddau haul, diogel a phwrpasol a gwella eich hyder eich hun wrth gyflwyno sesiynau gweithgarwch corfforol. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>		<i>Tre loan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	
Tachwedd 14^{eg}	Dydd Sadwrn 14 ^{eg} 9:30yb – 4:30yp	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Peditrig - Argyfwng (6 awr) Nod hyfforddiant peditrig brys yw darparu cymhwyster cymorth cyntaf peditrig staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc ac yn gofalu amdanynt. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys rheoli anafiadau anymwybodol, dadebru, clwyfau a gwaedu, mân losgiadau, tagu, trawiadau, sioc ac adweithiau alergaidd. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	St Johns Ambulance Cymru Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo Math o ffotograffig ID, trwydded yrru/ passport/ cerdyn CSG	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Tachwedd 17^{eg}	Dydd Mawrth 17 ^{eg} 6:30yh – 8yh	Cyflwyniad i Chwarae Rhannau Rhydd Mae Tîm Chwarae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn darparu Gweithdy 90 munud, heb achrediad, o'r enw 'Cyflwyniad i Chwarae Rhannau Rhydd'. Yn ystod y gweithdy hwn byddwch yn dysgu am chwarae rhannau rhydd a'i fanteision yn natblygiad plant. Bydd cyfranogwyr yn dysgu'r theori tu ôl i chwarae rhannau rhydd, yn archwilio'r amrywiaeth o fanteision y mae'r ffurf hon o chwarae yn ei gynnig, ac yn cael mewnwelediadau ymarferol i sut i weithredu a hwyluso chwarae rhannau rhydd yn eich lleoliad. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	CSG Tîm Chwarae	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre loan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Tachwedd 24^{ain}	Dydd Mawrth 24 ^{ain} 6yh – 9yh	Trin â Llaw Nod y cwrs hyn yw edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â thasgau trin â llaw. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r cynrychiolwyr i'w cynorthwyo i symud gwrthrych difywyd ac yn dysgu technegau codi cywir i osgoi anaf.	Hyfforddiant First Rate Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026

		<u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>			
Tachwedd 21^{ain} a'r 28^{ain}	Dydd Sadwrn 21 ^{ain} 9:30yb – 4:30yp Dydd Sadwrn 28 ^{ain} 9:30yb – 4:30yp	Diogelu Grŵp C Staff sydd â rôl flaenllaw o fewn penderfyniadau diogelu gan gynnwys person diogelu dynodedig y sefydliad. Safonau Diogelu Grŵp C Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Rhagfyr 8^{fed}	Dydd Mawrth 8 ^{fed} 9yb – 3yp	Hyfforddiant ADY Blynyddoedd Cynnar <u>Sut i gefnogi anghenion sy'n dod i'r amlwg ac adnabod anghenion ychwanegol o fewn y lleoliad Meithrin.</u> Mae'r hyfforddiant yn anelu at ddatblygu hyder a sgiliau'r staff wrth adnabod anghenion sy'n dod i'r amlwg ac oedi datblygiadol. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys damcaniaeth, gweithgareddau ymarferol ac ymyraethau. Bydd pwyslais ar weithgareddau ymarferol ac ymyraethau a all gefnogi plant o fewn y lleoliad Meithrin, gan ddatblygu hyder a sgiliau'r staff i ddefnyddio strategaethau wrth weithio gyda phlant sydd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg. Trwy gydol y dydd, bydd cyfle i arsylwi arfer da. Bydd adnoddau y gellir eu defnyddio o fewn y lleoliad Meithrin yn cael eu harddangos yn yr hyfforddiant. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Tîm ADY Blwyddyn Cynnar	<i>Neuadd Y Gwendraeth, Drefach SA14 7AG</i> <i>Ystafelloedd: Cynheidre a Pentremawr</i>	Dim cost £0
Medi – Rhagfyr	Ddim yn benodol dyddiad – porth ar-lein.	Hyfforddiant Poti/Tŷ Bach - Iechyd y Bledren a'r Coluddyn Nod y sesiwn hon yw cynyddu hyder ymarferwyr wrth drafod dechrau hyfforddiant poti/tŷ bach gyda theuluoedd, gan gynnwys teuluoedd plant ag anghenion ychwanegol. Bydd cyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd y bledren a'r coluddyn a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar hyfforddiant poti/toiled llwyddiannus, gan ddysgu hefyd sut i adnabod a rhannu adnoddau priodol ERIC i gefnogi teuluoedd drwy gydol taith eu plentyn. Bydd yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o ddull ERIC 'Let's Go Potty' a manteision ei fabwysiadu	ERIC	<i>Cyrchwyd trwy Hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar - ERIC</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref 2026

		mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Yn ogystal, bydd cyfranogwyr yn deall pwysigrwydd cael Polisi Hyfforddiant Poti clir er mwyn sicrhau dull cyson ar draws yr holl ymarferwyr ac ar gyfer pob plentyn. Yn y pen draw, nod y sesiwn yw gwella canlyniadau i blant drwy hybu iechyd y bledren a'r coluddyn, annog annibyniaeth, a chefnogi parodrwydd ar gyfer yr ysgol. <u>Mae'n ofynnol i gyfranogwyr gwblhau pob un o'r 4 modiwl.</u>			
Medi – Rhagfyr	Dim dyddiad penodol– porth ar-lein. Mae'n rhaid i chi gofrestru a chwblhau o fewn 14 diwrnod ar ôl cofrestru.	Hylandid Bwyd Lefel 2 Mae'r cwrs Lefel 2 yn addysgu hanfodion diogelwch bwyd ac mae'n addas ar gyfer pob gweithiwr sy'n trin, paratoi a gweini bwyd. Mae'r cwrs yn ymdrin â chyfrifoldebau cyfreithiol gweithwyr mewn amgylchedd bwyd, ac yn mynd i'r afael yn gynhwysfawr â bygythiadau diogelwch bwyd a'r arfer da sydd ei angen i'w lleihau. Bydd dysgwyr hefyd yn ymdrin â gofynion penodol sector y Blynyddoedd Cynnar. <u>Mae'n ofynnol i gyfranogwyr gwblhau'r hyfforddiant llawn (4-6 awr) i dderbyn tystysgrif.</u>	The Safer Food Group	<i>Cyrchwyd trwy</i> The Safer Food Group - Cyrsiau Hyfforddiant Ar-lein	Dim cost £0
Medi – Rhagfyr	Dim dyddiad penodol Nid oes angen archebu trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu	Hyfforddiant Alergerdd ac Anoddefiad Bwyd Dysgu mwy am alergeddau bwyd a sut i drin alergenau yn ddiogel. Caiff hyn ei gydnabod gan AGC fel yr hyfforddiant angenrheidiol wrth weithio gyda bwyd ac anoddefiadau. <u>Mae'n ofynnol i gyfranogwyr gwblhau'r hyfforddiant llawn (1 i 6 modiwl) i dderbyn tystysgrif.</u>	Asiantaeth Safonau Bwyd	<i>Cyrchwyd trwy</i> Hafan FSA Food Allergy Training	Dim cost £0